## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-26-13: Papur 1

GWYBODAETH GEFNDIR AM OFFERYNNAU STATUDOL GYDAG ADRODDIADAU CLIR

CLA324 - Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio Rhif 3) a Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 1(4) ac 8(1) o Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 ac adrannau 1(1), 1A, 2, 3, 34 a 47(1) o Ddeddf Adeiladu 1984 a pharagraffau 1, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran adeiladau ynni a eithrir.

Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi gofynion ynghylch gosod systemau llethu tân awtomatig pan wneir mathau penodol o waith adeiladu.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 i'w gwneud yn ofynnol darparu systemau llethu tân awtomatig mewn adeiladau penodol. Yr adeiladau hynny yw preswylfeydd, cartrefi gofal a rhai ystafelloedd at ddibenion preswyl. Mae adeiladau dros dro wedi'u heithrio o'r gofynion, yn yr un modd ag y mae, mewn achosion penodol, adeiladau rhestredig, adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth a henebion.

CLA325 – Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003 er mwyn ychwanegu budd-dal neu lwfans ychwanegol sy'n rhoi'r hawl i blentyn hawlydd hawlio prydau bwyd a llety am ddim ar daith breswyl.

Mae cael Credyd Cynhwysol ar neu ar ôl 15 Tachwedd 2013 wedi ei ragnodi at ddibenion adran 457 o Ddeddf Addysg 1996.